**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L-MD-0329-17

Nick Ramsay AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddPAC@assembly.wales

10 Mai 2017

Annwyl Nick

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Ebrill. Yn y llythyr hwnnw, roeddech yn nodi sylwadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y Papur Gwyn diweddar, sef 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad'.

Diolch ichi am eich sylwadau defnyddiol fel Pwyllgor. Byddaf yn eu hystyried ynghyd ag ystod eang o ymatebion eraill a gafwyd i'r ymgynghoriad. Rwy'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a gwneud datganiad ar y ffordd ymlaen gyda hyn.

Rwy'n gweld bod y Pwyllgor yn croesawu cyflwyno 'pŵer cymhwysedd cyffredinol' ar gyfer y prif awdurdodau lleol a bydd hyn yn rhoi cyfle iddynt ddefnyddio dulliau arloesol i ddiwallu anghenion a dyheadau eu cymunedau.

Nodaf hefyd fod y Pwyllgor yn croesawu'r adolygiad o gynghorau cymuned a chynghorau tref yr wyf yn eu sefydlu. Rwy'n cytuno y dylid cynnwys y materion ariannol a llywodraethu sydd wedi'u nodi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru fel rhan o ystyriaethau'r adolygiad. Bydd adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol yn rhan bwysig o'r drysorfa dystiolaeth sydd ar gael i'r adolygiad.

Rwy'n gwerthfawrogi pam mae'r Pwyllgor yn credu na ddylai'r pŵer cymhwysedd cyffredinol fod ar gael i gynghorau cymuned a chynghorau tref tan y bydd yr adolygiad wedi ei gynnal a bod ei argymhellion wedi eu rhoi ar waith. Wedi dweud hynny, o dan ein cynigion ni, dim ond i'r cynghorau hynny sy'n bodloni amodau penodol, gan gynnwys gallu dangos bod y ddwy farn ddiweddaraf a roddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch cyfrifon y cyngor yn ddiamod, y cynigir y pŵer hwn.

Mae'r dull o weithio rhanbarthol sy'n cael ei ffafrio a'i nodi yn y Papur Gwyn ar gyfer swyddogaethau penodol, er enghraifft, cynllunio trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir yn strategol sydd i'w wneud ar sail patrwm datblygu economaidd. Ar gyfer swyddogaethau eraill, fel amddiffyn y cyhoedd, bydd gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd i benderfynu ar batrymau ar y cyd o fewn fframwaith statudol a ragnodir mewn deddfwriaeth, gyda'r bwriad o ddileu gorgyffwrdd a hybu symlrwydd cyn belled ag y bo hynny'n bosibl. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau i ddod at ei gilydd a rhoi trefniadau yn eu lle sy'n gweddu orau i'r amgylchiadau lleol. Pan fo hynny'n briodol, byddant yn gallu datblygu trefniadau presennol, megis y consortia addysg rhanbarthol y sonnir amdanynt gennych.

Rwy'n cytuno bod rhaid cael dull cyson a chlir er mwyn mynd i'r afael â llywodraethu, atebolrwydd ac ariannu trefniadau rhanbarthol. Eto, mae'n fwriad gennyf i ddarparu fframwaith statudol o fewn y Bil arfaethedig. Fel a nodwyd yn y Papur Gwyn, bydd fy swyddogion yn cydweithio'n agos â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol er mwyn datblygu fframwaith llywodraethu priodol, gan dynnu ar eu gwybodaeth a'u profiad o'r trefniadau presennol.

Mae'n cynigion ni yn cynrychioli esblygiad y trefniadau presennol, ond maent hefyd yn rhoi'r trefniadau ar sail glir a chyson. Byddaf yn ystyried yn ofalus yr hyn sydd gan yr holl randdeiliad i'w ddweud am y cynigion.

Mae'n cynigion diwygio ehangach yn cydnabod pwysigrwydd cynghorwyr lleol fel arweinwyr ac eiriolwyr eu cymunedau. Bydd ganddynt swyddogaeth bwysig yn dwyn i gyfrif y rheini sy'n gyfrifol am benderfyniadau a chyflenwi gwasanaethau ac o ran rhoi cefnogaeth i etholwyr pan fo pethau'n mynd o chwith. Fel yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen, bydd y 22 awdurdod lleol presennol yn parhau'n fodd i ddinasyddion gael gwasanaethau o hyd, ac at yr awdurdodau hynny hefyd y bydd dinasyddion yn parhau i fynd fel y cyrff democrataidd pan fydd ganddynt unrhyw bryderon.

Rwyf innau hefyd, fel chithau, am anfon copi o'r llythyr hwn at John Griffiths, AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

Yn gywir

Mark

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.